LLAIS

Eich llais chi mewn iechyd a gofal | Your voice in health and social care



# EIN RÔL PRYD AWGRYMIR NEWIDIADAU I WASANAETHAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Uniondeb ~ Person ganolog ~ Cydweithio**

Llais is the **national, independent body** set up by the Welsh Government to give the people of Wales a stronger voice in their health and social care services.

Mae gennym dair prif rôl:

**01:** Ymgysylltu â chi a gwrando arnoch am eich profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol. Efallai y byddwch chi'n ein gweld ni allan yn y gymuned, mewn digwyddiadau, mewn sesiynau galw heibio – rydyn ni'n ceisio cwrdd â chi yn y lleoedd sy'n bwysig i roi cyfle i chi ddweud eich dweud.

**02:** Cynrychioli eich barn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddyn nhw nawr roi gwybod i ni beth maen nhw'n bwriadu ei wneud â'ch adborth. Os na allant weithredu arno, mae angen iddynt ddweud wrthym pam.

**03:** Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion ym mhob rhan o Gymru ar gyfer cwynion am iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed pan fydd y GIG a gofal cymdeithasol eisiau gwneud **newidiadau i wasanaethau** hefyd. Mae angen iddynt wneud yn siŵr eu bod yn dweud wrthym pan fyddant yn cynllunio newidiadau a rhaid iddynt eich cynnwys chi, y cyhoedd, pan fyddant yn cynllunio, datblygu a dylunio gwasanaethau.

## Gofynnwn iddynt ddweud wrthym

pam eu bod yn meddwl bod angen i bethau newid

beth maen nhw'n meddwl fydd yn well i bobl os bydd y newidiadau'n digwydd

pwy fydd yn cael eu heffeithio os bydd pethau'n newid

faint fydd yn ei gostio



Byddwn yn edrych ar eu cynlluniau ac yn sicrhau eich bod wedi cael cyfle i ddweud eich dweud.

Rydym yn sicrhau eu bod wedi meddwl yn ofalus am yr hyn y mae pawb wedi'i ddweud, wedi ei ddefnyddio i newid cynlluniau lle bo angen ac wedi ateb y cwestiynau a'r pryderon sydd gan bobl.



**Byddwn yn meddwl am:**

effeithiau da a drwg ar bob cymuned

sut y gall gwasanaethau gael eu heffeithio os bydd pethau'n newid neu os nad ydynt

a oes pethau y gall y bwrdd iechyd neu'r awdurdod lleol eu gwneud i gyfyngu ar unrhyw effeithiau negyddol

Os nad ydyn ni'n meddwl eu bod nhw wedi gwneud popeth maen nhw i fod i'w wneud, byddwn ni'n gofyn iddyn nhw wneud mwy i ymateb i'r pethau rydych chi ac eraill yn poeni amdanyn nhw.

Os na fydd hynny'n gweithio, efallai y byddwn yn cymryd camau eraill megis gofyn i un o Weinidogion Llywodraeth Cymru ymchwilio i'n pryderon.



Ydych chi eisiau gwybod mwy am sut y gallwch chi helpu i siapio dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol?

Cysylltwch â'ch tîm Llais lleol neu ewch i **www.llaiscymru.org**

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn Braille, Hawdd ei Ddarllen neu mewn iaith arall, cysylltwch â'ch tîm Llais lleol

# EICH TÎM LLAIS LLEOL

**Caerdydd a Bro Morgannwg**
Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.
**Ffôn:** 029 2375 0112
**E-bost:** ymholiadaucaerdyddarfro@llaiscymru.org

**Cwm Taf Morgannwg**
Yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.
**Ffôn:** 01443 405830
**E-bost:** ymholiadaucwmtafmorgannwg@llaiscymru.org

**Gwent**
Yn cwmpasu Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.
**Ffôn:** 01633 838516
**E-bost:** ymholiadaugwent@llaiscymru.org

**Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe**
Yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.
**Ffôn:** 01639 683490
**E-bost:** ymholiadau.cnptacabertawe@llaiscymru.org

**Gogledd Cymru**
Yn cwmpasu Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.
**Ffôn:**01978 356178/01248 679284
**E-bost:** ymholiadaugogleddcymru@llaiscymru.org

**Powys**
Yn cwmpasu Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Sir Faesyfed.
**Ffôn**: 01874 624206 /1686 627632
**E-bost:** ymholiadaupowys@llaiscymru.org

**Gorllewin Cymru**
Yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
**Ffôn**: 01646 697610
**E-bost:** ymholiadaugorllewincymru@llaiscymru.org

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

LLAIS

Eich llais chi mewn iechyd a gofal | Your voice in health and social care